PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# DISGRIFIAD SWYDD: DIRPRWY GANGHELLOR

Mae Dirprwy Ganghellor Prifysgol Aberystwyth yn un o benaethiaid seremonïol y Sefydliad ac fe'u penodir gan Gyngor y Brifysgol. Mae'r Dirprwy Gangellorion yn cyflawni nifer o swyddogaethau yn rhinwedd y gwaith seremonïol, yn unol â'r hyn a bennir gan y Cyngor. Gellir galw arnynt hefyd i ddirprwyo ar ran y Canghellor, yn ôl yr angen.

| | |
|---|---|
| **TYMOR Y SWYDD:** | Tair blynedd, gyda'r opsiwn o ailbenodi am ail dymor o hyd at dair blynedd. |
| **YMRWYMIAD AMSER:** | O leiaf 4 niwrnod yn Aberystwyth. Dylai'r Dirprwy Ganghellor ddangos ymrwymiad parhaus i Brifysgol Aberystwyth drwy gydol y flwyddyn ac efallai y byddant yn cael eu galw i gynrychioli'r Brifysgol mewn digwyddiadau yn Aberystwyth, a thu hwnt. |
| **TALIADAU:** | Mae hon yn rôl ddi-dâl. Fodd bynnag, gellir adennill treuliau os oes costau yn ymwneud â dyletswyddau'r rôl hon. |
| **DULL PENODI:** | Cyngor y Brifysgol, ar argymhelliad Pwyllgor Dethol. |

## DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Bydd y Dirprwy Ganghellor yn:

1. Gweithio gyda'r Canghellor i ymgymryd â'r swyddogaethau anrhydeddus sy'n ofynnol yn y rôl, megis llywyddu Seremonïau Graddio'r Brifysgol.

2. Ymgymryd â gweithgareddau ar ran y Brifysgol mewn rhinwedd llysgenhadol a dylanwadu ar randdeiliaid allweddol, yn ôl yr angen.

3. Dangos ymrwymiad cryf at addysg ac amcanion, nodau a gwerthoedd Prifysgol Aberystwyth.

4. Ymdrechu i sefydlu perthynas waith adeiladol a chefnogol gyda'r Canghellor, Dirprwy Ganghellor(ion) eraill, a Chadeirydd y Cyngor, yn ogystal â'r Is-Ganghellor, Clerc y Cyngor, a staff perthnasol. Fodd bynnag, rhaid i'r Dirprwy Ganghellor hefyd gydnabod y gwahaniaethau priodol rhwng arweinyddiaeth anrhydeddus, llywodraethu a rheolaeth weithredol.

5. Dangos ymrwymiad at ddyletswydd y Brifysgol i hyrwyddo ac annog yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Efallai y bydd yn ofynnol i'r Dirprwy Ganghellor siarad yn Gymraeg a Saesneg mewn digwyddiadau yn y Brifysgol. Byddant yn cael eu briffio a'u paratoi'n llawn gan y Brifysgol i'w galluogi i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol.

Noder nad yw'r rhestr uchod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r dyletswyddau dan sylw. Amlinellir rhagor o wybodaeth am y broses benodi ar gyfer rôl y Dirprwy Ganghellor yn Ordinhad 2.

## GWRTHDARO BUDDIANNAU

Bydd yn ofynnol i bob person a benodir yn Ddirprwy Ganghellor Aberystwyth ddatgelu unrhyw wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'w swydd fel Dirprwy Ganghellor, cyn iddynt ddechrau yn y swydd. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw fuddiant, ariannol neu fel arall, sy'n debygol o ymyrryd â'r

dyfarniad annibynnol unigol. Bydd gwybodaeth o'r fath yn hysbys i'r Cyngor ar adeg y penodiad neu'r ailbenodiad.

# CEISIADAU

Mae'r Brifysgol yn gwahodd ceisiadau ar gyfer rôl Dirprwy Ganghellor Prifysgol Aberystwyth o 01 Ionawr 2026. Dylai ceisiadau nodi profiad ac addasrwydd unigolyn ar gyfer penodiad, a'u cyflwyno i Ysgrifennydd y Brifysgol (saastaff@aber.ac.uk), ynghyd â CV, erbyn **12.00yp, 16.09.2025.**

**Proses Benodi**

**w/c 22.09.2025** - Trafodaethau anffurfiol gydag aelodau'r Pwyllgor Dethol
**07.10.2025 –** Cyfarfod y Cyngor i ystyried argymhellion y Pwyllgor Dethol.

## CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac mae'n ymdrechu i fod yn gynhwysol, gan werthfawrogi amrywiaeth ei staff, myfyrwyr a'i chymuned.

Lle bo hynny'n briodol, gwneir yr holl addasiadau rhesymol i alluogi'r Dirprwy Ganghellor i gyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol.

## SEFYDLU

Mae pob person a benodir yn derbyn cefnogaeth i ymsefydlu a rhaglen fydd wedi'i deilwra i'w gofynion unigol.

Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg

Uned Llywodraethu
Prifysgol Aberystwyth
Penglais
Aberystwyth
SY23 3BF

01970 62 2114

saastaff@aber.ac.uk